| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Rhagfyr 2017** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth/<br>Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Comisiynu ar gyfer y Gwasanaethau Gofalwyr** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cynnydd – Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych 2016-19** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am weithrediad Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych a dderbyniwyd er gwybodaeth gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2017. Datblygwyd y Strategaeth yn 2016 gan Grŵp amlasiantaeth Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych, ac mae'n nodi sut y bydd y Grŵp yn cydweithio i ddatblygu cymorth i Ofalwyr Sir Ddinbych ymhellach mewn modd sy'n mynd i'r afael ag anghenion lleol Gofalwyr, o fewn cyd-destun deddfwriaeth newydd a newidiadau demograffig. Mae dolen i ddogfen y Strategaeth i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad.

1.2 Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu datblygiadau arwyddocaol eraill ers yr adroddiad cynnydd diwethaf i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2017, y mae angen eu hystyried ochr yn ochr â gweithrediad y Strategaeth.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn â chynnydd gyda datblygiad y Strategaeth. Darparwyd Adroddiad Cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 22 Mehefin 2017. Gofynnwyd am adroddiad cynnydd pellach ym mis Rhagfyr 2017.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn:

3.1 ystyried yr adroddiad ac yn darparu sylwadau fel y bo'n briodol mewn perthynas â sut y mae partneriaid yn Sir Ddinbych yn parhau i gydweithio i ddatblygu cymorth i Ofalwyr yn Sir Ddinbych ymhellach, o fewn cyd-destun o gynnydd mewn galw, deddfwriaeth newydd a newidiadau demograffig;

3.2 parhau i gefnogi a hyrwyddo cyflawniadau'r Strategaeth er mwyn i Wasanaeth Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych ddiwallu ei oblygiadau statudol ar gyfer Gofalwyr, mewn partneriaeth â phartneriaid statudol a thrydydd sector;

3.3 cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (gweler y ddolen isod) fel rhan o'u hystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'r Strategaeth yn cael ei thanategu gan ddeddfwriaeth newydd, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn benodol.

4.2 Mae’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (y Ddeddf) yn gofyn am newid mewn diwylliant sy'n darparu mwy o ffocws ar hybu cadernid, annibyniaeth, hunanofal a chymorth yn y gymuned. Mae'n cydnabod bod gan Ofalwyr eu hunain rôl ataliol, ac yn rhoi’r un hawliau iddynt â dinasyddion eraill i gefnogi a chynnal y rôl hon mewn perthynas â gofal a chefnogaeth i eraill. Wrth ddatblygu gofynion y Ddeddf, roedd yn bwysig cynnwys anghenion cymorth y Gofalwyr yn natblygiad ymagwedd newydd seiliedig ar asedau Sir Ddinbych tuag at asesu a diwallu anghenion, yn hytrach na gwneud hyn ar ei ben ei hun.

4.3 Mae cynnydd yn erbyn y Strategaeth yn cael ei ddogfennu yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth [Atodiad 1] sy'n nodi'r camau gweithredu er mwyn i bartneriaid strategol a thrydydd sector ddatblygu cymorth i Ofalwyr yn Sir Ddinbych, a sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth statudol newydd.

4.4 Mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth wedi'i osod yn erbyn canlyniadau’r Ddeddf ar gyfer dinasyddion ac mae’n canolbwyntio ar gydymffurfio â'r Ddeddf. Mae hefyd yn cael ei fapio yn erbyn Blaenoriaethau Allweddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar gyfer y rhanbarth canolog. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru (gweler Atodiad 1), ond mae'r canlynol yn amlygu rhai o’r meysydd datblygu ehangach:

4.4.1 Datblygiadau Rhanbarthol – mae Gofalwyr yn grŵp sy’n cael blaenoriaeth gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Dan nawdd y Tîm Cydweithio Rhanbarthol, cyflawnwyd gwaith yn y misoedd diweddar i fapio gwasanaethau gofalwyr yng Ngogledd Cymru. Mae hyn wedi golygu cyfarfod â gofalwyr a gwrando ar eu straeon ar hyd a lled y rhanbarth. Mae adroddiad drafft sy’n cynnwys y canfyddiadau cychwynnol bellach wedi cael ei lunio, ac mae’r canfyddiadau wedi cael eu cyflwyno i Grŵp Strategol Gofalwyr Gogledd Cymru. Bydd gweithdy i bartneriaid yn cael ei gynnal ar 7 Rhagfyr i sicrhau cytundeb ymysg partneriaid ar y ffordd ymlaen ar gyfer dylunio a darparu gwasanaethau gofalwyr yng Ngogledd Cymru, gyda ffocws cryf ar yr hyn sy’n gweithio’n dda ar hyn o bryd a sut y gall partneriaid gydweithio’n well i gyfrannu at gadw gofalwyr yn iach.

4.4.2 Prosiect Loteri Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS) – Mae'r gwaith ar ddarparu gwasanaethau ychwanegol i Ofalwyr yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint dros y tair blynedd nesaf yn mynd rhagddo’n dda. Mae’r gwasanaethau hyn yn cynnwys cwnsela, eiriolaeth a chyngor ar hawliau lles. Yn ogystal, mae gofal seibiant i Ofalwyr yn cael ei ddarparu yng nghyfleuster Tai Gofal Ychwanegol Llys Awelon, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych a Grŵp Cynefin. Mae trafodaethau hefyd ar y gweill i ddatblygu gofal seibiant tebyg yn Nant y Môr, Prestatyn.

4.4.3 Mae ‘Pwyntiau Siarad’ Sir Ddinbych yn parhau i ddatblygu. Mae yna enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth gan y Llywyr Cymunedol, Un Pwynt Mynediad a sefydliadau’r trydydd sector megis NEWCIS a Chymdeithas Alzheimer i ddarparu gwybodaeth a chymorth i Ofalwyr. Yn ogystal, mae NEWCIS bellach yn darparu gwirfoddolwyr i gefnogi Pwyntiau Siarad ledled y sir. Mae nifer o’r gwirfoddolwyr hyn yn gyn-ofalwyr sydd eisiau rhoi o’u hamser i helpu Gofalwyr eraill.

4.4.4 Gofalwyr Ifanc – Fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 22 Mehefin, edrychwyd ar ddarparu Cardiau Hamdden i Ofalwyr Ifanc mewn partneriaeth â Gwasanaethau Hamdden a Gwasanaethau Plant Sir Ddinbych a Gofalwyr Ifanc WCD. Cytunwyd ar hyn mewn egwyddor ac mae’r partneriaid yn ystyried y gwahanol opsiynau sydd ar gael i Ofalwyr ifanc.

4.5 Datblygiad Ychwanegol:

4.5.1 **Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2017-22**

Fel rhan o flaenoriaeth y Cyngor i greu ‘Cymunedau Cryf’, mae’r Cyngor yn nodi y bydd yn cydweithio â phobl a chymunedau i ddatblygu annibyniaeth a chadernid. Mae hyn yn cynnwys

sicrhau fod pob Gofalwr yn Sir Ddinbych yn cael cefnogaeth dda. Croesawir y ffocws hwn ar Ofalwyr yn Sir Ddinbych, a bydd yn cynnig cyfle i ddatblygu ymhellach ymagwedd Sir Ddinbych tuag at gefnogi Gofalwyr dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gyda chefnogaeth lawn y Cyngor. Mae Cynllun Busnes wrthi'n cael ei lunio, fydd yn nodi'r meysydd penodol i'w datblygu. Bydd y rhain yn cynnwys atgyfeiriadau gan bartneriaid iechyd a chymorth i rieni sy'n Ofalwyr. Bydd y cynllun busnes hefyd yn ystyried sut y gellir datblygu cymorth i Ofalwyr yn gorfforaethol. Bydd Bwrdd y Rhaglen Gorfforaethol dros Gadernid yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Busnes.

4.5.2 **Grant Gofal Seibiant i Ofalwyr**

Ar ddiwedd Gorffennaf 2017, bu i Lywodraeth Cymru hysbysu Awdurdod Lleol Sir Ddinbych am grant o £100,012 i ariannu cyfleoedd ychwanegol am ofal seibiant i Ofalwyr. Rhaid gwario'r grant yn y flwyddyn ariannol bresennol. Cytunodd Penaethiaid y Gwasanaethau y dylid dyrannu 20% o'r grant i'r Gwasanaethau Plant i gefnogi Gofalwyr ifanc a rhieni sy'n Ofalwyr. Yn dilyn ymgynghoriad â phartneriaid, cytunwyd ar broffil gwario gan yr uwch reolwyr a ddangosir isod. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw arwydd y bydd cyllid pellach ar gael ar ôl Mawrth 2018. Mae gofyn i Lywodraeth Cymru fonitro canlyniadau'r cyllid ychwanegol hwn yn fanwl.

- *Gofalwyr sy'n Oedolion:*
  - Gofal seibiant preswyl ychwanegol, gwasanaethau dydd a gwasanaethau eistedd gyda phobl.
  - Cynllun talebau Seibiant Byr i Ofalwyr nad ydynt eisiau cysylltu â gwasanaethau statudol (cynllun peilot gyda NEWCIS).
  - Cyllid ychwanegol i wasanaeth 'Rhannu Dyddiau' ar gyfer unigolion gyda dementia cymedrol i ddifrifol.
  - Recriwtio teuluoedd 'Rhannu Bywydau' i ddarparu gofal seibiant i Ofalwyr oedolion ag anableddau dysgu.
- *Gwasanaethau Plant (Gofalwyr Ifanc a Rhieni sy'n Ofalwyr)*
  - Seibiannau byr i Ofalwyr ifanc.
  - Gweithiwr cefnogi i blant ag anabledd sydd rhwng 8 a 18 oed.
  - Gofal plant ychwanegol i blant ag anabledd dan 8 oed.

4.5.3 **'Dilyn y Ddeddf' Gofalwyr Cymru 2017 a 'Cefnogi Gofalwyr' Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2017.**

Mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych wrthi'n ystyried canfyddiadau'r adroddiadau hyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dilyn gwaith ymchwil ac ymgysylltu â gofalwyr, i fesur sut mae llywodraeth leol yng Nghymru'n cyflawni eu dyletswyddau newydd i Ofalwyr dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Er bod yna dystiolaeth o arferion da ar draws y rhanbarth o ran darparu gwasanaethau, gan gynnwys darparu Gwybodaeth a Chyngor, mae yna rywfaint o bryder y gallai Gofalwyr fod wedi llithro i lawr yr agenda wrth fynd ati i drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf newydd. Mae angen i Awdurdodau Lleol sicrhau dealltwriaeth dda o hawliau Gofalwyr i asesiadau a chymorth. Er nad yw'r adroddiadau'n amlygu unrhyw feysydd pryder penodol i Sir Ddinbych, mae'r canfyddiadau wedi cael eu mapio yn erbyn arferion cyfredol yn Sir Ddinbych (gweler Atodiad 2). Bydd unrhyw gamau gweithredu ar gyfer Sir Ddinbych yn cael eu hystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau fframwaith sicrhau ansawdd y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol eu hunain.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Strategaeth Gofalwyr yn cyfrannu'n benodol i'r blaenoriaethau corfforaethol trwy:

- **Clymu Cymunedau:** Mae cymunedau wedi'u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da;

- **Cymunedau Cryf:** Mae’r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid;

Mae Gofalwyr yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'n cymunedau trwy gefnogi'r unigolion y maent yn gofalu amdanynt i barhau i fod yn annibynnol. Bydd datblygiad parhaus y Strategaeth yn ceisio sicrhau nad yw Gofalwyr eu hunain yn mynd yn ddiamddiffyn oherwydd eu rôl ofalu, a'u bod yn derbyn cefnogaeth i barhau'n annibynnol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd yn rhaid rheoli unrhyw gynnydd mewn galw ar y gwasanaethau o fewn y cyllidebau presennol.

Mae'n debyg mai mesurydd llwyddiant y Ddeddf fydd gostyngiad yn nifer y Gofalwyr sydd angen asesiad mwy trylwyr os ydynt yn cael eu cefnogi'n effeithiol ar ddechrau eu rôl ofalu. Mae'n bwysig bod yr effaith ar wasanaethau ataliol megis y rhai sy'n cael eu darparu gan y trydydd sector yn cael ei fonitro, a bod y gwasanaethau’n cael eu hail-gysoni i ddiwallu'r galw.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

Prif gasgliadau'r asesiad o’r effaith ar les a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2017 (Atodiad 3 – dilynwch y ddolen isod) oedd y byddai'r Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar draws yr holl nodau lles, ac adlewyrchir hyn yn y sgôr datblygu cynaliadwy. Mae'r Strategaeth wedi'i chysoni’n benodol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a gofynion y Ddeddf newydd mewn perthynas â Gofalwyr, sydd bellach â’r un hawliau â'r unigolyn y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r Strategaeth yn ceisio sicrhau bod Sir Ddinbych yn diwallu ei oblygiadau cyfreithiol newydd i Ofalwyr, ac yn gwneud hyn drwy ddull partneriaeth ystyrlon. Mae'r ymagwedd hon, ynghyd ag ymagwedd sy'n seiliedig ar asedau Sir Ddinbych ei hun i ddiwallu gofynion y Ddeddf newydd yn sicrhau y bydd yr holl Ofalwyr yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth i'w cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain. Bydd hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai y maent yn gofalu amdanynt, a'r gymuned ehangach o bosib. Ni chynhaliwyd asesiad wedi'i ddiweddaru at ddibenion yr adroddiad cynnydd hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ni chynhaliwyd proses ymgynghori at ddibenion yr adroddiad cynnydd hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes angen datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad diweddaru hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae cyflawniadau'r Strategaeth yn dibynnu'n helaeth ar waith partneriaeth sy'n cael ei oruchwylio gan Grŵp y Strategaeth Gofalwyr i sicrhau bod cynnydd yn parhau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae pwerau’r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â’r mater hwn wedi’u pennu yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor.

**Dogfen Strategaeth:**
**https://moderngov.denbighshire.gov.uk/documents/s22607/CARERS%20STRATEGY%20-%20APP%201%20E.pdf?LLL=1**

**Asesiad o’r Effaith ar Les:**
**https://moderngov.denbighshire.gov.uk/documents/s22609/CARERS%20STRATEGY%20-%20APP%203.pdf?LLL=1**